



Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Jessica Chapman a Holly Wells

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Cafwyd Ian Huntley'n euog o lofruddio Jessica Chapman a Holly Wells yn Soham yn 2002. Diflannodd y ddwy ferch 10 oed ac ar ôl i'r heddlu chwilio ardal eang, daethpwyd o hyd i'w cyrff.

Ian Huntley oedd yr uwch ofalwr mewn ysgol leol ac roedd Maxine Carr, cariad Huntley, yn gynorthwydd dysgu yn ysgol y merched. Yn sgil hynny, lansiodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd ymchwiliad i'r achos. Cynigiodd adroddiad Bichard lawer o argymhellion a oedd yn seiliedig ar y defnydd o ddata a'r trefniadau ar gyfer archwilio cefndir unigolion sydd am weithio gyda phlant.

Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei wynebu

Roedd Ian Huntley yn byw yn Grimsby cyn symud i Soham. Cynhaliodd Heddlu Humberside ymchwiliad iddo yn ymwneud â throseddau rhywiol honedig a ddigwyddodd rhwng Awst 1995 ac 1999 (arweiniodd un ymchwiliad at gyhuddiad o dreisio, ond ni ddaeth dim o'r cyhuddiad yn y pen draw).

Roedd tri o'r ymchwiliadau hyn yn ymwneud â merched dan oed. Ni arweiniodd yr un ohonynt at euogfarn, er i bobl leol ddechrau ystyried Huntley yn droseddwr rhyw ailadroddus posibl. Cyhuddwyd Huntley hefyd mewn cysylltiad â byrgleriaeth mewn tŷ yn Grimsby ym mis Tachwedd 1995. Cyrhaeddodd yr achos y llys ym mis Mawrth 1996 a gorchmynnwyd ei chadw ar ffeil.

Beth ddigwyddodd?

Ym mis Medi 2001, ymgeisiodd Huntley am swydd gofalwr yng Ngholeg Pentref Soham. Erbyn hynny, roedd wedi newid ei gyfenw i Nixon, ac wedi ymgeisio am y swydd dan yr enw hwnnw. Fodd bynnag, datgelodd ar ei ffurflen gais mai ei enw blaenorol oedd Huntley. Er hyn, pan anfonwyd y ffurflen i'w gwirio gan Heddlu Humberside, dim ond yr enw Nixon gafodd ei wirio – ac ni chanfuwyd unrhyw beth. Pe baent wedi gwirio'r enw Huntley, byddent wedi canfod y cyhuddiad o fyrgleriaeth a oedd wedi cael ei adael ar ei ffeil. Yn ddiweddarach, dywedodd Pennaeth Coleg Pentref Soham na fyddai wedi cyflogi Huntley fel gofalwr pe bai'n gwybod am y cyhuddiad o fyrgleriaeth, gan mai un o gyfrifoldebau allweddol gofalwr yr ysgol oedd sicrhau diogelwch ar dir yr ysgol.

Pam y digwyddodd?

Daeth i'r amlwg ar unwaith bron iawn fod Heddlu Humberside (lle digwyddodd yr holl droseddau honedig) wedi dinistrio gwybodaeth a oedd yn ymwneud â'r honiadau blaenorol yn erbyn Huntley, ar y sail eu bod yn credu ei bod yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Diogelu Data i ddal data ynghylch honiadau na arweiniodd at euogfarn. Roedd awdurdodau heddlu eraill yn anghytuno â hyn ac yn credu eu bod wedi dehongli'r Ddeddf yn rhy gaeth. Beirniadwyd Heddlu Swydd Gaergrawnt hefyd am fethu â chysylltu â Heddlu Humberside yn ystod y weithdrefn fetio.



Argymhellion yr adroddiad

- cyflwyno system deallusrwydd cenedlaethol lle mae gwybodaeth a gesglir sy'n awgrymu y gallai rhywun fod yn fygythiad yn cael ei rhannu ac y gweithredir ar y wybodaeth honno cyn i'r person gael ei gyflogi mewn swydd sensitif
- mae'n rhaid hyfforddi'r rhai sy'n recriwtio staff mewn ysgolion yn briodol mewn mesurau diogelu
- dylid cael proses fetio gryfach sy'n fwy cyson gan gynnwys cyflwyno system ar gyfer cofrestru'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed
- dylid cael cronfa ddata o bob troseddwr rhywiol honedig sy'n gweithio gyda phlant y gellir chwilio drwyddi
- nid yw rhyw dan oed rhwng plant 15 oed a phobl hŷn yn cael ei gydnabod yn ddigon cadarn bob tro, felly dylai'r Llywodraeth ailddatgan ei chanllawiau ar hyn
- cynllun cofrestru ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed, y gall cyflogwyr ei ddefnyddio. Byddai'n dangos pe bai rheswm pam na ddylai rhywun weithio gyda phlant.

Dyfyniad Bichard, S.M. (2004) *The Bichard Inquiry report*. Llundain: Y Llyfrfa (TSO).